

Dechrau wrth fy Nhraed.

Prydiau ysgol am ddim

- 7.3% o'r ysgol yn derbyn prydiau ysgol am ddim
- Canran cyfartalog yng Nghymru yw 18.4%

Ysgol mewn ardal eithaf cryf o ran economi yn ôl y gwahaniaeth yma felly mae'r gymuned yn un sydd yn ffynnu.

Cyswllt y Dysgwr, Ysgol a'i Rhieni

Un ffordd mae'r ysgol yn cysylltu'r dysgwr a'r rhieni i addysg yw'r defnydd o ddarllen. Mae rhieni a'r ysgol yn gwrando ar eu plant yn dysgu ac yn ei gofnodi lawr mewn llyfr ac yn gwneud sylwadau. Mae hyn yn caniatáu i'r rhieni allu tracio datblygiad eu plentyn yn ddyddiol.

Yr Ardal

Mae'n ardal hanesyddol iawn gan ei fod wedi ei leoli tu fewn wal fawr ac mae yn ardal lan y môr. Mae'r gymuned wedi cael ei adeiladu ar dwristiaeth felly mae yn ardal yn llawn busnesau lleol. Mae nifer fawr o rieni'r ysgol yn rhedeg busnesau ei hun felly dros adegau gwyliau maent yn brysur iawn. Yn ystod amseroedd ysgol maent yn ffodus ei bod hi ychydig yn fwy tawel felly nid oes rhaid talu am rywun i warchod ei plant. Mae'r ysgol yn cynnal clwb ar ôl ysgol er mwyn rhoi cymorth i'r rhieni. Mae bod mewn ardal lan y môr yn fuddiol iawn i'r ysgol gan ei bod nhw'n gallu defnyddio'r traeth neu'r busnesau lleol er mwyn cynyddu datblygiad plentyn heb orfod talu am fws.

Crefydd

Cristnogaeth yw prif grefydd yr ardal ond mae yna nifer o grefydd arall yn debyg i unrhyw gymuned arall. Mae'r ysgol yn ymweld â'r holl gapeli ag eglwysi'r ardal yn ei thro. Maent hefyd yn dysgu am y grefydd wahanol a'i digwyddiadau megis Diwali, felly mae'r plant yn cael blas ar amryw o grefyddau gwahanol. Mae yna ysgol grefyddol sydd yn canolbwyntio ar Gristnogaeth felly mae crefydd yn rhan bwysig iawn yn y gymuned yn fwy i rai nag eraill.

Iaith

Ysgol cyfrwng Cymraeg ond mae wedi ei leoli mewn ardal Saesnegadd iawn. Mae hyn yn amlwg gan mae dim ond 7% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg, felly i fwyaf o'r plant yr ysgol yw'r unig le maent yn clywed y Gymraeg.

Mae'r cynulliad yn gobeithio cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 felly mae ardaloedd fel hyn yn ganolbwynt mawr yn y broses hon oherwydd erbyn 2050 bydd y disgyblion yma wedi cael plant ei hun. Gyda'r ysgol yn gwneud tyfiant mae yn amlwg fod y gymuned yn dechrau newid o ran iaith ar ôl agoriad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn mynd ati i hybu'r Gymraeg tu fewn a thu allan yr ysgol gyda'r defnydd o hwb er mwyn annog rhieni ddarllen gyda'i phlant. Mae hyn yn ychwanegu at yr uned deuluol yn yr ysgol ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Theori Bronfenbrenner


Theori Bronfenbrenner yw'r theori sydd yn canolbwyntio ar sut mae'r amgylchedd cymdeithasol yn effeithio ar ddatblygiad. Mae'n pwysleisio ar sut mae cyd-destun y mae plentyn yn tyfu i fyny ynddi yn effeithio ar ei datblygiad.

Mae'r theori yn cysylltu'r dysgwr, yr ysgol a'r gymuned. Mae'n amlinellu sut taw'r perthnasoedd agosaf sy'n cael y dylanwad mwyaf sef y microsystem ond mae'r theori yn cydnabod y dylanwad y mae cysylltiadau pellach yn ei gael, megis swyddi ei rhieni neu ddiwylliant. Nid yw'r theori yn berffaith ond mae yn dda iawn o ran sôn am gysylltiadau plentyn.

Cysylltiadau'r ysgol â'r Gymuned

- Gwefan yr ysgol-Bwletin Wythnosol+Rhifau Cyswllt
- Teithiau i'r cartref Hen bobl adeg Nadolig-Canu Carolau
- Cysylltu'r gwaith maent yn ei wneud i swyddi yn y gymuned- Ymwelwyr
- Cyngerdd Nadolig-cynnig tocynnau i'r holl gymuned
- Cynnig Neuadd yr ysgol er mwyn defnydd y gymuned
- Gwefannau Cymdeithasol
- Cylchlythyron

System Ecologol



Cyfeirnod

Fy ysgol leol, 2019. *Ysgol Hafan y Mor*. <http://mylocalschool.gov.wales/School/6682395?lang=cy> (Darllenwyd 29 o Ionawr)

Ysgol Hafan y mor, 2019. *Ysgol Hafan y Mor*. <http://ysgolhafanymor.cymru/cartref/> (Darllenwyd 29 o Ionawr)

Estyn, 2017 *Adroddiad ar Ysgol Hafan Y Mor*.

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Hafan%20Y%20Mor%2016.pdf> (Darllenwyd 29 o Ionawr)

Psychology Wiki. *Bioecological Model*. https://psychology.wikia.org/wiki/Bioecological_model (Darllenwyd 7 o Chwefror)

Exploring your mind, 2019. *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*

<https://exploringyourmind.com/bronfenbrenners-ecological-systems-theory/> (Darllenwyd 7 o Chwefror)

Llywodraeth Cymru. *Cymraef 2050*. <https://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf> (Darllenwyd 7 o Chwefror)